Byw Yn Yr Haul

Ger y dŵr ar lannau'r Tywi
Yr haul yn machlud dros y gorwel grae
Y dydd yn dawel llusgo'i wely
Y caeau'n cuddio yn y golau brau
Yn y wlad dw'i hapusa'
Yn gorwedd rhywle yn yr haul.

Falle mod i braidd hen fasiwn
Dwy'n rhy hoff o edrych 'nol
Canu gwlad a chanu gwerin
Bues unwaith yn fwy roc a rôl
Mi wn i ble dw'i hapusa'
Yn eistedd rhywle yn yr haul

Dwy'n hoff o glywed hen emynau
Well gen i bethe yn y lleddf
Ydy hyn rhyw fath o arwydd
(Neu) raid 'mi dderbyn mae dyma'n reddf
Gwn i be' sy'n 'neud fi'n hapus
Cael llonydd rhywle yn yr haul.

Byw yn yr haul
Byw yn yr haul
Does dim i'w gael (yn well na)
Byw yn yr haul.

© Geraint Griffiths 2005